



# Newyddion Rhagfyr 2024

## POBURDD

Llongyfarchiadau i Eli Jones am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Poburdd yn y Rhyl yn ddiweddar. Cyflwynodd Eli bedair cacen fach wedi eu haddurno ac mi fydd rwan yn cynrychioli'r Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd 2025 yng Nghastell Nedd, Port Talbot.Poc lwc iti Eli!



## CYFEILLION YR EGLWYS

Braf oedd cael croesawu y Parchedig John ac aelodau o'r Eglwys i'r Ysgol i gynnal gweithdŷ angylion i blant Blwyddyn 2 i 6. Cafodd y plant gyfle gwych i greu angel eu hunain ac mi fydd rhain yn cael eu defnyddio i addurno'r Eglwys.






## Y NADOLIG

Wrth gwrs mae hi'n amser prysur iawn yn ein hysgolion gyda'r Nadolig ar y gorwel. Cafwyd Gyngherdd Nadolig arbennig gan y plant, gyda pawb wedi dysgu eu gwaith yn wych!







## EIN GWAITH THEMA

YN OGYSTAL A DATHLIADAU'R NADOLIG MAE'R PLANT WEDI BOD YN BRYSUR YN GWEITHIO GAN DDILYN EIN THEMA YSGOL YR OES FICTORIA A TEGANAU.







## CERDDORIAETH

RYDYM YN HYNOD O FFODUS FOD GWASANAETH CERDD SIR DDINBYCH YN CYNNIG GWERSI OFFERYNNAU CERDD YN YR YSGOL. MAE'R TRI PLENTYN YMA WEDI BOD YN CAEL GWERSI DRYMIAU ERS MIS MEDI A CAWSOM BERFFORMIADAU NADOLIGAIDD GWYCH GAN Y TRI YN Y NEUADD. DA IAWN ALICE, NEDW A LOIS, A DALIWCH ATI!





CAFODD BLWYDDYN 2 A 3 FLAS AR DDYSGU OFFERYN TRA GWAHANOL HEFYD YN YSTOD Y TYMOR!



